CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 13eg CHWEFROR 2024
AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. PRESENNOL – Ceri Owen (Cad), Justin Davies, Judith Humphreys, Dylan Herbert, Barry Bracegirdle (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Dafydd Thomas (Nebo), Harry Owen, Gareth Jones (Talysarn) a Cyng. Peter Thomas.

YMDDIHEURIADAU - Erfyl Williams (Penygroes), Ffion Jones (Nantlle), Siân Dafydd (Talysarn).

2. DATGAN BUDDIANT – nid oedd neb yn datgan buddiant ond Justin Davies a Judith Humphreys am esgusodi eu hunain o drafodaeth pwynt 4 – Tir Cwtin.

3. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 9fed IONAWR 2024 - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD –
Llwybr RB82 - nid oedd dim ymateb wedi ei dderbyn ynglŷn â'r mater hwn – y clerc i ddilyn fyny ar hyn.
Gwaith trwsio cerbiau - Y cerbiau tu allan i'r Co-op a 80 Trem Yr Wyddfa heb eu trwsio - y clerc i ddilyn fyny ar hyn.
Safle Bws - Adrodd bod y safle bws wedi ei atgyweirio.
Sbwriel Mynwentydd - Sbwriel dal i gael ei gadael yn y mynwentydd er gwaethaf yr arwyddion. Cynigwyd i roi nodyn ar y dudalen Facebook i atgoffa pawb i fynd a'u sbwriel adref.
Tir Cwtin - gadawodd Justin a Judith yr ystafell. Esboniwyd ein bod wedi derbyn manylion cyfreithwyr Pwyllgor Cwtin. Cam nesaf y Cyngor yw cynnal is-bwyllgor i drafod pen-telerau ar gyfer y les. Trafodwyd a phenderfynwyd y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal nos Fawrth, 27ain Chwefror am 7.00 o'r gloch.
Golau Nadolig - wedi derbyn adroddiad a phris atgyweirio'r golau gan RJ Electrics. Y clerc i holi LITE beth yw'r warrant ar y golau.
Sedd wag Talysarn - rhoddwyd enw Nigel Williams ymlaen i fod ar y Cyngor ac ar ôl trafod penderfynwyd ei wahodd ar y cyngor ac i'r cyfarfod llawn nesaf. Hefyd, roedd e-bost wedi ei dderbyn cyn y cyfarfod heno bod Ffion Jones, Nantlle yn rhoi ei sedd i fyny. Y clerc i roi hysbyseb am sedd wag Nantlle ar y wefan a thudalen Facebook.
Argyfwng Costau Byw - teimlo bod angen ffocysu mwy ar hyn. Cofio bod y Clwb Ieuenctid yn rhan o hyn. Bu i Judith gytuno i arwain ar y pwnc yma ac mae am gyfarfod gyda Trey McCain ac aelod o'r Orsaf gan eu bod yn ymwneud a llawer o brosiectau yn ymwneud ar argyfwng yn lleol. Gofynnwyd i Judith adrodd yn nôl i'r pwyllgor llawn mis nesaf.

5. ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR - pawb wedi derbyn copi o adroddiad Cyng. Peter Thomas ymlaen llaw a diolchwyd iddo am ei waith. Eithaf pryderus am sefyllfa pont Coed Cae Du / Coed Cae Du Bach. Y Cyngor Cymuned i e-bostio Cyngor Gwynedd am hyn. Adroddwyd bod y carafanau oedd wedi eu parcio ym maes parcio Canolfan Talysarn bellach wedi eu symud. Afon Tyddyn Agnes - cwyn wedi ei dderbyn am fudreddi yn yr afon - disgwyl ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru am y sefyllfa.

6. MATERION PENTREFI - atgoffwyd pawb na fydd y mater yma ar yr agenda o hyn ymlaen, ond bydd y clerc yn gyrru ffurflen i bawb fydd yn eu galluogi i'w llenwi fewn gydag unrhyw fater a dod a hi i'r cyfarfodydd neu i e-bostio'r clerc yn ystod y mis os bydd unrhyw faterion yn codi ac angen sylw unai gan Gyngor Gwynedd neu'r Cyngor Cymuned.
Talysarn - adrodd bod baw ci yn Ffordd Nantlle a bod y clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'u bod wedi bod allan ac wedi rhoi arwydd ac wedi gwneud cais am fin baw ci i'w osod yno - ond mae 10 bin yn Nhalysarn yn barod felly dim yn ffyddiog y byddant yn gosod un arall.
Nebo – y cyhoedd yn cwyno am gyflwr ffordd Pant Y Gog a'i bod angen sylw ar frys.
Llanllyfni – y cyhoedd yn cwyno fod twll ger Dolgau ac angen sylw.
Penygroes - angen gofyn i griw 'Ardal Ni' ddod i dwtio o amgylch y pentref. Cwynion wedi ei derbyn bod tenantiaid tai / fflatiau Grŵp Cynefin ar y Stryd Fawr yn gadael eu biniau yn y stryd drwy'r adeg - cytunodd Christine i edrych fewn i hyn gyda Grŵp Cynefin ac adrodd yn nôl yn y cyfarfod llawn nesaf.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____

7. CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

7fed Chwefror - Cyfarfod i drafod ceisiadau ariannol - derbyniwyd 25 o geisiadau gan wahanol sefydliadau / elusennau ac roedd pawb wedi derbyn copi o'r awgrymiadau o faint o gyfraniad i'w roi fel y trafodwyd yn y cyfarfod ar 7fed Chwefror. Holwyd pan nad oedd CFfI Eryri ddim yn cael cyfraniad ond bod yr Urdd - barn fod y ddau yn sefydliadau tebyg ar gyfer pobl ifanc yr ardal. Trafodwyd, cynigwyd ac eiliwyd i dynnu'r £205 oedd wedi ei awgrymu i rai i lawr i £200 a rhoi £50 i CFfI Eryri, sef yr un faint o gyfraniad a'r Urdd. Y clerc i wneud y taliadau i'r rhai sydd i gael.

8. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID - roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb ymlaen llaw i edrych drosto. Awgrymodd Gareth y buasai yn syniad cael cyfarfod tua mis Mawrth i drafod cyllideb 2024/25 gan y bydd gwell syniad erbyn hynny beth fydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma. Holwyd os oes opsiwn o gwbl i roi cymorth i drigolion Trem Yr Wyddfa gyda'r camerâu CCTV sydd ganddynt. Buasai rhaid edrych fewn i hyn, ond bu i Ceri roi cyswllt iddynt yn ADRA a gweld os allent hwy helpu.

9. LLWYBRAU A MYNWENTYDD

Wal Mynwent Macpela - roedd dau bris wedi ei dderbyn i drwsio'r wal. Trafodwyd y prisiau a chynigwyd ac eiliwyd i gymryd pris Aaron Hughes gan ei fod wedi gwneud gwaith arbennig yno o'r blaen ar ddarn arall o'r wal. Y clerc i gysylltu gydag Aaron i gynnig y gwaith iddo.

10. GWEFAN NEWYDD I'R CYNGOR CYMUNED - roedd Justin wedi paratoi brîff ar gyfer y wefan. Trafodwyd a chynigwyd ac eiliwyd i Ceri a Nia (clerc) arwain ar hyn ac adrodd yn nôl i'r cyngor llawn wedyn. Diolchwyd i Justin am ei waith.

11. AFON TYDDYN AGNES – bu i'r pwynt yma gael ei drafod yn ystod adroddiad y Cyng. Peter Thomas (pwynt 5).

12. CEISIADAU CYNLLUNIO

C23/0658/22/AC - Lock Up, Self Stoage, Penygroes - cais i ddiwygio amod 3 ar ganiatâd rhif C22/0570/22/LL i godi to dros ddihangfa dân, gosod paneli haul i'r to, ffenestr llawr daear, ffens terfyn pren i gau safle storio dŵr - **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

Adroddodd Cyng. Peter Thomas bod CPD Talysarn Celts wedi derbyn caniatâd cynllunio.

13. GOHEBIAETH - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth ymlaen llaw a rhoddwyd siawns i godi unrhyw fater os oedd eisiau. Nid oedd dim yn codi o'r isod.

- Prosiect Coed Ywen – Parc Cenedlaethol Eryri
- Strategaeth Arwyddo Penygroes – Cyngor Gwynedd
- Adnoddau newydd – Buglife Cymru – Un Llais Cymru
- Digwyddiad 7/3/27 ar y cyd Un Llais a Chymorth Cynllunio Cymru
- Sgyrsiau Iechyd Lleol 2024 - Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Adolygiad Gwasanaeth GCTMB Chwefror 2024 – Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
- Cynllun ffioedd 2024/25 – Archwilio Cymru

14. MATERION ARIANNOL - trafodwyd a rhoddwyd caniatâd i'r clerc dalu'r isod i gyd.

- Nia Jones – Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00**
- Dylan Evans – Coed Nadolig = **£70.00**
- Designer Signs – Trwsio panel ar safle bws a gosod arwydd ym Mynwent Macpela = **£181.20**
- Ifan ac Idris = **£6180.00**
- Iwan Williams - gosod drws ar gwt yn Fynwent Gorffwysfa = **£738.00**

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____

15. UNRHYW FATER ARALL

Apêl Fawr Y Daffodil, Marie Curie - roedd llythyr wedi ei dderbyn gan Elusen Marie Curie yn gofyn am arian tuag at Apêl Fawr Y Daffodil eleni. Buasai cyfraniad gan y Cyngor Cymuned yn cynorthwyo nyrsys a gwasanaethau lleol fel y gall cleifion a theuluoedd lleol gael cymorth. Trafodwyd y mater a'r teimlad unfrydol oedd bod yr elusen yn gwneud gwaith da a phenderfynwyd rhoi rhodd o £150.00 iddynt.

Cerrig ar gylchdro Penygroes/Llanllyfni - angen cael gwybod pwy sydd yn gyfrifol am y cerrig sydd ar y gylchfan gan fod yr ysgrifen arnynt angen ei dacluso a hefyd y cylchdro ei hun angen sylw.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____